

Department of Mathematics

Referencing Guide

(Mae hon yn ddogfen ddwyieithog - gweler tudalennau 3-4 am y fersiwn Gymraeg. / This is a bilingual document - please see pages 3-4 for the Welsh version.)

Preparation of a mathematical document that is of a high standard of accuracy is an essential academic skill. The Department of Mathematics therefore requires that assessed coursework is presented neatly and according to acceptable scholarly standards in terms of both layout and referencing. This document provides a brief guide to students on what we consider to be good referencing practice.

We do not stipulate a particular reference style that you should use. There are many different styles of referencing used in scientific research, all of which could be suitable for documents written for our project modules. Styles tend to differ between the three main sub-disciplines of mathematics and also within the many different related research areas. We encourage students who are working on individual projects to look carefully at the style of referencing that is most common in their reading material as this will provide a good example to copy. Once you have chosen a suitable referencing style, you should follow the following principles:

1. You should always **be consistent**. Once you have chosen a suitable referencing style you should stick with it throughout your report.
2. **Include all of the information** about the sources you cite. This will allow people who read your report to easily find the cited sources if they wish to do some further reading into the topic covered.
 - For example when citing a **book**, the reference should include the title, names of authors, editors, publishers as well as the date (year) of publication. The order in which this information is presented is dependent on your chosen referencing style.
 - For **journal articles**, make sure that you include the names of (all) co-authors, the full title of the article, name of journal, volume, page numbers and issue number as well as the date of publication. Again, this information should appear in the order that is relevant to the referencing style that you have chosen.
 - For **unpublished papers**, the information you include depends on the nature of the work. If a paper has been accepted for publication but is yet to appear in the relevant journal, you should provide the name of the journal, followed by “to appear”. Otherwise if a paper is known to have been submitted for publication, but hasn’t yet been accepted for publication, you should simply include “submitted”, or “preprint”, possibly followed by a URL if the paper is available online.
 - For papers that appear in **conference proceedings or collections** in books, as well as including details about the author (and all co-authors) and the title of the article itself, you should also include the title and author/editor of the book in which the article appeared; the publisher; the year and place of publication; and, in case of a conference proceedings, the location and date of the conference.

3. **Cite all items** included in the bibliography in the body of work. There should be no item in your bibliography that isn't cited somewhere in your report/thesis. All work taken from another source (papers, books, or the web), including images, should be carefully cited.
4. **Use standard journal abbreviations.** Note that some of the papers that you read may include incorrect abbreviations of journals, and so we recommend checking the list

<http://www.ams.org/msnhtml/serials.pdf>

if you're unsure.

5. **Use proper punctuation** and spacing in references. If you set references manually with `bibitem` (see below), be sure to punctuate references and insert spaces where appropriate.

LaTeX and BibTeX

We strongly recommend that mathematical reports and theses should be prepared using LaTeX. Initial training on LaTeX typesetting will be given to students registered on our level M project modules, but we also recommend that you complete some online tutorials (for example those at www.latex-project.org/). The inclusion of a bibliography at the end of your LaTeX written report requires that you write your references in BibTeX format. You can learn how to include and manage your references in this format at <http://www.bibtex.org/>.

Adran Mathemateg

Canllaw Cyfeirnod

Mae paratoi dogfen fathemategol sydd o safon cywirdeb uchel yn sgil academiaidd hanfodol. Mae'r Adran Fathemateg felly'n disgwyl fod gwaith cwrs asesiedig yn cael ei gyflwyno'n daclus ac i safon ysgolheigaidd derbyniol yn nhermau gosodiad a chyfeirnod. Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllaw byr i fyfyrwyr ar yr hyn yr ydym yn ei ystyried i fod yn ymarfer da wrth gyfeirnod.

Nid ydym yn mynnu eich bod yn defnyddio arddull penodol o gyfeirnod. Defnyddir nifer o arddulliau gwahanol mewn ymchwil gwyddonol, ac mae'n bosib y bydd y rhain i gyd yn addas ar gyfer dogfennau sy'n cael eu cyflwyno yn ein modiwlau prosiect. Mae'r arddulliau'n dueddol o fod yn wahanol rhwng y tri prif is-ddisgyblaeth o fathemateg yn ogystal â'r meysydd ymchwil gwahanol. Rydym yn annog ein myfyrwyr i edrych yn ofalus ar yr arddull cyfeirnod mwyaf cyffredin yn eu deunydd darllen gan y bydd hwnnw'n cynnig enghraifft addas i'w gofio. Wedi i chi ddewis arddull cyfeirnod addas, dylech ddilyn yr egwyddorion canlynol:

1. Dylech fod yn **gyson**. Unwaith yr ydych wedi dewis arddull cyfeirnod, defnyddiwch yr arddull hwn trwy eich adroddiad.
2. Cofiwch **gynnwys yr holl wybodaeth** am y ffynonellau rydych yn cyfeirio atynt. Bydd hyn yn galluogi i'r darlennydd ganfod y ffynonellau yma os yw'n dymuno darllen yn ddyfnach i'r pwnc dan sylw.
 - Er enghraifft, os ydych yn cyfeirio at **lyfr**, dylech gynnwys ei deitl, enwau'r awduron, golygyddion, cyhoeddwr a dyddiad (blwyddyn) ei gyhoeddiad. Mae'r drefn y byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth yma'n ddibynol ar y steil cyfeirnod y byddwch yn ei ddewis.
 - Ar gyfer **erthyglau mewn cyfnodolyn**, gwnewch yn siwr eich bod yn cynnwys enwau'r cyd-awduron, teitl llawn yr erthygl, enw'r cyfnodolyn, rhif cyfrol, rhifau tudalennau a rhif rhifyn yn ogystal â dyddiad y cyhoeddiad. Dylai'r wybodaeth yma ymddangos yn y drefn sy'n berthnasol i'r arddull cyfeirnod rydych yn ei ddewis.
 - Ar gyfer **papurau sydd heb eu cyhoeddi**, bydd y wybodaeth y byddwch yn ei gynnwys yn ddibynol ar natur y gwaith. Os yw papur wedi cael ei dderbyn i'w gyhoeddi ond eto i ymddangos yn y cyfnodolyn perthnasol, dylech gynnwys enw'r cyfnodolyn gyda nodyn "i ymddangos". Os yw'n hysbys fod papur wedi cael ei gyflwyno i gyfnodolyn ar gyfer cael ei gyhoeddi, ond heb gael ei dderbyn ar gyfer cyhoeddiad eto, dylech gynnwys "cyflwynwyd", neu "rhagargraffiad", gydag URL i ddylyn os yw'r papur ar gael ar-lein.
 - Ar gyfer papurau sy'n ymddangos mewn **trafodion cynhadledd neu gasgliadau** mewn llyfrau, yna yn ogystal â chynnwys manylion yr awdur (a'r holl gyd-awduron) a teitl yr erthygl ei hun, dylech hefyd gynnwys teitl ac awdur/golygydd y llyfr sy'n cynnwys yr erthygl; y cyhoeddwr; blwyddyn a lleoliad y cyhoeddiad; ac, yn achos trafodion cynhadledd, lleoliad a dyddiad y gynhadledd.

3. **Cyfeiriwch at bob eitem** rydych yn ei gynnwys yn eich llyfryddiaeth yng nghorff eich gwaith. Ni ddylai eich llyfryddiaeth gynnwys unrhyw eitem sydd heb gyfeiriad ato unrhywle yn eich adroddiad neu draethawd. Dylai pob darn o waith a gymerir o ffynonellau eraill (papurau, llyfrau, neu'r wê), gan gynnwys delweddau, gael ei ddyfynnu'n ofalus.
4. **Defnyddiwch dalfyriadau safonol o gyfnodolion.** Noder ei bod yn bosib y bydd rhai o'r papurau rydych yn eu darllen yn cynnwys talfyriadau anghywir o gyfnodolion, ac felly rydym yn awgrymmu eich bod yn gwirio'r rhestr

<http://www.ams.org/msnhtml/serials.pdf>

os ydych yn ansicr.

5. **Defnyddiwch atalnodiadau** a gofod priodol mewn cyfeirnodau. Os ydych yn llunio eich llyfryddiaeth â llaw gyda `bibitem` (gweler isod), gwnewch yn siwr eich bod yn atalnodi ac yn cynnwys gofod lle bo'n briodol.

LaTeX a BibTeX

Rydym yn awgrymmu'n gryf fod adroddiadau mathemategol yn cael eu paratoi gan ddefnyddio LaTeX. Byddwn yn cynnig hyfforddiant cychwynnol ar ddefnyddio teiposod LaTeX i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar ein modiwlau prosiect lefel M, ond rydym hefyd yn argymhell eich bod yn cwblhau tiwtorialau ar-lein (fel yr enghreifftiau sydd i'w gweld yn www.latex-project.org/). Mae cynnwys llyfryddiaeth ar ddiwedd adroddiad rydych wedi ei baratoi yn LaTeX yn golygu ysgrifennu'r cyfeiriadau mewn fformat BibTeX. Gallwch ddysgu sut i gynnwys a rheoli eich cyfeiriadau yn y fformat hwn yn <http://www.bibtex.org/>.